Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl Riant / Gofalwr,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod dosbarth eich plentyn wedi cael ei ddewis i gymryd rhan yn yr Astudiaeth Cynnydd mewn Llythrennedd Darllen Rhyngwladol (PIRLS) 2026. Mae'r llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr astudiaeth a'r hyn fydd yn digwydd.

Beth yw PIRLS?

Astudiaeth ryngwladol yw PIRLS a gaiff ei chynnal bob pum mlynedd ac mae'n casglu data o fwy na 60 o wledydd, gan gynnwys Cymru. Mae PIRLS yn edrych ar sgiliau darllen plant 9-10 oed ledled y byd. Caiff y canlyniadau eu defnyddio gan ein llywodraeth ni, a llywodraethau ym mhedwar ban byd, i wella eu systemau addysg, felly mae'n hollbwysig bod ysgolion a disgyblion yn cymryd rhan. Ceir rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth ar wefan Pearson -

Beth fydd yn digwydd?

Fel rhan o'r astudiaeth, bydd disgyblion yn darllen darnau byr o destun ffuglennol a ffeithiol ac yn ateb cwestiynau, yn ogystal â holiadur byr. Caiff ei chynnal ar **08.05.26.** Nid oes angen i'ch plentyn wneud unrhyw beth i baratoi ac ni fydd yn effeithio ar ganlyniadau eich plentyn na chynnydd eich plentyn yn yr ysgol. Os bydd unrhyw gwestiynau na fydd am eu hateb, gall eu gadael yn wag. Hoffem eich sicrhau na chaiff canlyniadau eich plentyn eu nodi mewn unrhyw adroddiadau. Mae hyn oherwydd mai'r system addysg sy'n cael ei hadolygu, nid eich plentyn.

Mae rhieni/gofalwyr yn cael eu gofyn i gwblhau holiadur ar-lein hefyd, cyn dyddiad profion PIRLS. Caiff hwn ei anfon adref gyda'ch plentyn a chaiff gwybodaeth am sut i'w gwblhau ei chynnwys gyda'r holiadur.

Mae preifatrwydd a diogelwch data'r rhieni/gofalwyr, y disgyblion a'r ysgolion yn bwysig iawn i ni ac ni fydd modd adnabod unrhyw unigolyn nac ysgol mewn unrhyw adroddiadau. Mae hysbysiad preifatrwydd llawn, sy'n nodi sut y caiff y wybodaeth a gesglir yn yr astudiaeth hon ei defnyddio, ar gael yn yr adran 'Diogelu Data' ar wefan Pearson.

Hoffem ddiolch i chi a'ch plentyn am gymryd rhan yn PIRLS, rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad yn fawr. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cyfranogiad eich plentyn yn PIRLS neu gwestiynau am drefniadau'r diwrnod, cysylltwch â Chydlynydd Ysgol PIRLS: drwy e-bostio admin@yggglantrisant.rctcbc.cymru. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am PIRLS nad yw'r ysgol yn gallu eu hateb, mae croeso i chi gysylltu â PIRLScymru@pearson.com.

Yn gywir,

dyan lieil

Gwybodaeth am PIRLS i Rieni / Gofalwyr




Mae eich plentyn yn aelod o ddosbarth Blwyddyn 5 sydd wedi cael ei ddewis i gymryd rhan ym Mhrif Astudiaeth yr Astudiaeth Cynnydd mewn Llythrennedd Darllen Rhyngwladol (PIRLS).




Astudiaeth asesu addysgol ryngwladol yw PIRLS a gaiff ei chynnal mewn mwy na 60 o wledydd. Bydd eich plentyn yn cymryd rhan ochr yn ochr ag ysgolion eraill o bob cwr o'r byd.



Asesiad a holiadur cyfrifiadurol yw PIRLS sy'n canolbwyntio ar ddau ddiben darllen sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o ddarllen a wneir gan ddisgyblion ifanc yn yr ysgol a'r tu allan iddi: ar gyfer profiad llenyddol, ac i ddysgu a defnyddio gwybodaeth.




Gall PIRLS fod yn ymarfer darllen a deall ardderchog. Nid oes angen i'r disgyblion wneud unrhyw waith adolygu, dim ond gwneud eu gorau ac ateb yr hyn y gallant ei ateb.



Er mwyn diolch i'ch plentyn am gymryd rhan, bydd yn cael tystysgrif ar ôl cwblhau asesiad a holiadur PIRLS.



Caiff unrhyw fanylion adnabod eu newid yng nghanlyniadau PIRLS, sy'n golygu na fydd modd adnabod unrhyw ddisgybl nag ysgol yn y canfyddiadau a gyhoeddir. Ni fydd ysgol eich plentyn yn cael canlyniadau unigol ar gyfer disgyblion.



Mae croeso i chi gysylltu â Thîm Cymorth PIRLS os bydd gennych unrhyw gwestiynau:
PIRLScymru@pearson.com
020 7010 2027 (8am-4pm)

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan PIRLS: https://www.pearson.com/uk/web/pirls26-cymru-cymraeg.html neu sganiwch y cod QR â'ch ffôn clyfar.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dear Parent / Carer,

I am writing to inform you that your child's year group (Year 5) has been selected to participate in the Progress in International Reading Literacy Study (PIRLS) 2026. This letter provides you with information about the study and what's involved.

What is PIRLS?

PIRLS is an international study that takes place every five years and gathers data from over 60 countries, including Wales. PIRLS looks at the reading skills of 9–10-year-olds around the world. The results are used by our government, and governments from around the world, to improve their education systems, so it's vitally important that schools and pupils participate. Further information on the study is available from the Pearson website -

What is involved?

The study involves reading short passages of fiction and non-fiction and answering questions, as well as a short questionnaire. It will take place on **08.05.26**. Your child doesn't need to do anything to prepare and nor will it affect your child's results or progress in school. If there are any questions they do not wish to answer, they may leave them blank. Please be assured that your child's results will not be identified in any reporting. This is because it is the education system, not your child, that is being reviewed.

Parents/carers will also be asked to complete a home questionnaire online before the PIRLS test date. This will be sent home with your child and information on how to complete it will be enclosed with the questionnaire.

The privacy and data security of the parents/carers, pupils and schools is very important, and no individual or school will be identified or identifiable in any reporting. A full privacy notice, which sets out how the information collected in this study will be used, is available in the 'Data Protection' section of the Pearson website.

We would like to thank you and your child for their participation in PIRLS, your contribution is highly valued. If you have any concerns about your child's participation in PIRLS or queries about the logistics of the day, please contact the PIRLS School Coordinator: via admin@yggllantrisant.rctcbc.cymru. If you have any questions about PIRLS that the school is unable to answer, feel free to contact PIRLScymru@pearson.com.

Yours sincerely,



IEA
PIRLS
2026

PIRLS Information for Parents/Carers




Your child is a member of a Year 5 class which has been selected to take part in the Progress in International Reading Literacy Study (PIRLS) Main Study.




PIRLS is an international educational assessment study which takes place in over 60 countries. Your child will participate alongside other schools from around the world.



PIRLS is a computer-based assessment and questionnaire focusing on the two purposes for reading that account for most of the reading done by young pupils in and out of school: for literary experience, and to acquire and use information.




PIRLS can be great reading and comprehension practice. No revision is required, we just ask pupils to try their best and answer what they can.



As a thank you for participating, on completion of the PIRLS assessment and questionnaire, your child will receive a certificate.



All PIRLS results are pseudonymised, meaning no pupil or school will be identifiable in published findings. Your child's school won't receive their individual results back.



Feel free to contact the PIRLS Support Team with questions:
PIRLScymru@pearson.com
020 7010 2027 (8am-4pm)

For more information, visit the PIRLS website:
https://www.pearson.com/uk/web/pirls26-cymru.html
or scan the QR code with your smart phone.